Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Meeting Venue:
**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Meeting date:
**Dydd Mawrth, 8 Tachwedd 2011**

Meeting time:
**09:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

For further information please contact:

**Sarah Beasley**
Committee Clerk
029 2089 8032
Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk

**Name**
Deputy Committee Clerk
029 2089 **xxxx**
Name@wales.gov.uk

## Agenda

### 1. Cynnig i ethol Cadeirydd dros dro (09:15- 09:20)
Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i benodi Cadeirydd dros dro yn absenoldeb y Cadeirydd.

### 2. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:20 - 09:25)

### 3. Trafodaeth am yr Amcangyfrif diwygiedig o Incwm a Gwariant Swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2013 (09:25 - 09:35) (Tudalennau 1 - 18)
PAC(4) 06-11 - Papur 1 - Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: Amcangyfrif o incwm a gwariant swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2013

PAC(4) 06-11 - Papur 2 - Gohebiaeth oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â'r amgangyfrif o incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2013

### 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn:
Item 5

### 5. Trafodaeth am yr Adroddiad drafft ar Amcangyfrif o Incwm a Gwariant Swyddfa Archwilio Cymru (09:35 - 10:00) (Tudalennau 19 - 27)

### 6. Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru  Arlwyo a Maeth Cleifion

**mewn Ysbytai (10:00 - 11:00)** (Tudalennau 28 - 34)
PAC(4)-06-11 - Papur 3 - Llywodraeth Cymru - Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai

David Sissling Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a phlant
Jean White Prif Swyddog Nyrsio/Cyfarwyddwr Nyrsio Cymru
Andrew Walker Pennaeth Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau

## 7. Papurau i'w nodi (Tudalennau 35 - 36)
Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Eitem 3

Tachwedd 2011

www.wao.gov.uk

WALES AUDIT OFFICE

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Amcangyfrif o incwm a threuliau swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2013

# Amcangyfrif o incwm a threuliau swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2013

Cyflwynwyd i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru
o dan Baragraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr y mae'n eu penodi mewn llywodraeth leol yw archwilwyr allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Maent yn gyfrifol am archwilio'n flynyddol y rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr £14 biliwn o gyllid a bleidleisir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Trosglwyddir elfennau o'r cyllid hwn gan Lywodraeth Cymru i'r GIG yng Nghymru (dros £5 biliwn) ac i lywodraeth leol (dros £4 biliwn).

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2005. Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r Swyddog Cyfrifo ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n gyfrifol yn bersonol am ei threfniant cyffredinol, ei rheolaeth a'i staffio yn ogystal â'i gweithdrefnau mewn perthynas â materion ariannol a materion eraill.

Rhoddir crynodeb o brif weithgareddau gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr y mae'n eu penodi mewn llywodraeth leol, ochr yn ochr â ffynonellau ariannu cysylltiedig, yn Atodiad 1 o'r amcangyfrif hwn. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni oddeutu dwy ran o'r gwaith archwilio blynyddol. Caiff y gweddill ei osod ar gontract gan yr Archwilydd Cyffredinol i gwmnïau cyfrifwyr y sector preifat.

# Cynnwys


## Cyflwyniad a Chrynodeb o'r gofynion cyllidebol 4

## Amcangyfrif o incwm a threuliau 7

Dull strategol 7

Gostyngiadau i incwm ffioedd 8

Arbedion ac arbedion effeithlonrwydd pellach 9

Costau ychwanegol i fynd iddynt 11

Meysydd ansicrwydd 11

## Atodiadau 13

Atodiad 1 - Prif weithgareddau gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr y mae'n eu penodi mewn llywodraeth leol, a ffynonellau ariannu cysylltiedig 13

Atodiad 2 - Amcangyfrif o ofynion cyllidebol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2013 14

Atodiad 3 - Amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2013 16

# Cyflwyniad a chrynodeb o'r gofynion cyllidebol

1 Fel Archwilydd Cyffredinol, mae'n rhaid i mi baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau fy swyddfa (Swyddfa Archwilio Cymru) ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a chyflwyno'r amcangyfrif i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus[1].

2 Gwahoddaf y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i archwilio a gosod yr amcangyfrif hwn o'm hincwm a'm treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2013 gerbron y Cynulliad Cenedlaethol[2].

3 Mae'r amcangyfrif rwyf yn ei gyflwyno yn darparu gostyngiad o 14.4 y cant mewn termau real[3] yn erbyn cyfanswm y gofyniad adnoddau net y gwnaed cais amdano ar gyfer 2011-12[4]. Rwyf yn gofyn am gyllid refeniw o £4.724 miliwn, ynghyd â £0.016 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae cyfanswm y gofyniad adnoddau net ar gyfer £4.740 miliwn felly, o'i gymharu â £5.403 miliwn yn 2011-12 a £5.047 miliwn yn 2009-10 a 2010-11. Yn sgil trafodaeth y PCC ar fy mhapur cynt, mae fy ngofyniad yn eithrio cost system Adnoddau Dynol/cyflogres newydd yr wyf yn amcangyfrif fydd oddeutu £110,000. Byddaf nes ymlaen yn ystyried cyflwyno Amcangyfrif Atodol ar ôl i'm Pwyllgor Adnoddau a sefydlwyd yn ddiweddar gael cyfle i graffu costau arfaethedig y system newydd, ac yr wyf wedi ystyried eu hargymhellion.

4 Mae Arddangosyn 1 yn dangos yr amrywiant termau real cronnus yng nghyfanswm y gofyniad adnoddau net y gofynnwyd amdano ar gyfer pob un o'r blynyddoedd 2009-10 i 2012-13.

5 Yn Ardangosyn 2 rwyf yn darparu amcangyfrif o'r modd y bydd yr adnodd net y gofynnwyd amdano ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2013 yn cael ei ddefnyddio.

6 Cyflwynir fy ngofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2013 ar ffurf sy'n briodol i'w chynnwys yng Nghynnig Cyllidebol y Gweinidogion yn Atodiad 2, ochr yn ochr â chysoni'r gofyniad adnoddau net â'r gofyniad tynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

7 Yn ychwanegol at y symiau a ddangosir yn Atodiad 2, caniateir i mi gadw[5] adnoddau a gronnwyd o waith archwilio, asesu ac arolygu llywodraeth leol[6]. Yn ystod 2012-13, amcangyfrifir bod yr adnoddau hyn yn werth £9.576 miliwn, o'i gymharu ag £11.379 miliwn yn 2011-12 (gweler Atodiad 3 ar gyfer cysoni amcangyfrif o groniadau incwm â ffioedd a chyfanswm incwm arall). Nid yw'r adnoddau hyn yn rhan o'r swm sydd i'w awdurdodi gan Gynnig Cyllidebol, ond fe'u cynhwysir er gwybodaeth.

1 O leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae a wnelo â hi, fel y pennir o dan Baragraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006).

2 Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar y dybiaeth bod *Amcangyfrif Atodol o Incwm a Threuliau ar gyfer y Flwyddyn a Ddaw i Ben ar 31 Mawrth 2012* a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Medi 2011, wedi cael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol heb ei addasu.

3 Amrywiannau termau real wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio data'r gyfres dadchwyddo CMC ddiweddaraf Trysorlys EM o 30 Medi 2011:


| Blwyddyn yn dod i ben | Newid y cant ar y flwyddyn flaenorol |
|---|---|
| 31 Mawrth 2011 | 2.97 |
| 31 Mawrth 2012 | 2.90 |
| 31 Mawrth 2013 | 2.50 |

4 Fel y pennir yn fy *Amcangyfrif Atodol o Incwm a Threuliau ar gyfer y Flwyddyn a Ddaw i Ben ar 31 Mawrth 2012*, sy'n diwygio fy amcangyfrif gwreiddiol o'r gofyniad adnoddau net o £4,853,000.

5 O dan Baragraff 9(3) o Atodlen 8 i Ddeddf 2006.

6 Cynhaliwyd o dan Ran 1 (Adran 33) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

**Arddangosyn 1 - Amrywiant termau real cronnus yn y gofyniad adnoddau net y gofynnwyd amdano gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer pob un o'r blynyddoedd 2009-10 i 2012-13**




**Arddangosyn 2 - Amcangyfrif o'r defnydd o'r gofyniad adnoddau net cymeradwy yn 2012-13 a chymhariaeth â 2011-12**

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 £000 |
|---|---|---|
| Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian gan yr Archwilydd Cyffredinol | 1,635 | 1,635 |
| Gweithio gydag eraill i rannu dysgu, gan gynnwys darparu'r Gyfnewidfa Arfer Da | 200 | 200 |
| Darparu cymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol | 250 | 250 |
| Ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill | 80 | 80 |
| Rhoi cymeradwyaethau i dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru | 15 | 15 |

## Arddangosyn 2 - Amcangyfrif o'r defnydd o'r gofyniad adnoddau net cymeradwy yn 2012-13 a chymhariaeth â 2011-12 (parhâd)

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 £000 |
|---|---|---|
| Cyfraniadau at y canlynol: | | |
| Hyfforddi a datblygu staff | 792 | 850 |
| Seilwaith TG | 772 | 850 |
| Cymorth technegol, ymchwil a datblygu | 500 | 500 |
| Datblygu a gwella busnes | 360 | 453 |
| Bodloni dyletswyddau cydraddoldeb | 80 | 0 |
| Talu aelodau o'r pwyllgor llywodraethu | 40 | 0 |
| Cynllun gwirfoddol ar gyfer ymadawiad cynnar | 0 | 550 |
| **Cyfanswm gofyniad gwariant refeniw** | **4,724** | **5,383** |
| Gwariant cyfalaf | 16 | 20 |
| **Cyfanswm gofyniad adnoddau net** | **4,740** | **5,403** |

# Amcangyfrif o incwm a threuliau


8 Darperir fy amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru, a'r gofyniad adnoddau net canlyniadol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2013, yn Atodiad 3.

9 Mae Arddangosion 3 a 4 yn dangos y gostyngiadau termau real cronnus yng ngwariant Swyddfa Archwilio Cymru a'r incwm ffioedd archwilio yn ôl eu trefn rhwng 2009-10 a 2012-13. Mae'r proffiliau pedair blynedd hyn yn dangos y gostyngiadau parhaus yn fy ngwariant cyffredinol (gostyngiad o £4.6 miliwn dros y cyfnod) a hefyd yn y ffioedd a godir ar y cyrff y byddaf yn eu harchwilio (gostyngiad o £3.4 miliwn dros y cyfnod). Rwyf hefyd yn derbyn cyllid grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru i gynnal fy ngwaith mewn llywodraeth leol ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella. Ers 2009-10 mae'r cyllid hwnnw wedi'i ostwng mewn termau real 25.6 y cant ac ar gyfer 2012-13 bydd yn £1.347 miliwn.

## Dull strategol


10 Mae fy nadansoddiad o'r prif risgiau a chyfleoedd sy'n wynebu pob corff cyhoeddus yng Nghymru[7] yn sail i'm cynlluniau ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru. Yn unol â'm strategaeth gorfforaethol, byddaf yn parhau i ystwytho ein rhaglen waith er mwyn

**Arddangosyn 3 - Gostyngiad termau real cronnus yng nghyfanswm gwariant blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru rhwng 2009-10 a 2012-13**




7 Ym mis Mawrth 2010 cyhoeddom *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus*, a oedd yn amcangyfrif yr heriau ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Cafodd ail adroddiad o'r enw *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011* ei gyhoeddi a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Hydref 2011. Mae'r ail adroddiad yn amlinellu fy safbwynt i ar barodrwydd gwasanaethau cyhoeddus i ymdopi â llai.

**Arddangosyn 4 - Gostyngiad termau real cronnus yn y ffioedd a godir yn flynyddol ar gyrff a archwilir rhwng 2009-10 a 2012-13**




adlewyrchu risgiau a chyfleoedd sy'n newid, a byddaf yn parhau i ymdrechu i symud i ffwrdd oddi wrth ymagwedd 'yr un fath i bawb' at archwilio, o fewn cyfyngiadau'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i'n gwaith. Yn ein holl weithgareddau, rwy'n benderfynol y bydd ein gwaith yn rhoi i bobl Cymru wybodaeth gadarn annibynnol am y modd y caiff eu harian ei wario. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i hyrwyddo llywodraethu da, disgyblaeth ariannol gref a gwelliant parhaus mewn ansawdd gwasanaethau, hyd yn oed yn yr amserau anodd hyn.

## Gostyngiadau i incwm ffioedd

11 I gydnabod y cyfyngiadau ariannol a wynebir gan gyrff y sector cyhoeddus, rydym yn parhau i geisio gostwng ein ffioedd archwilio. Rhwng 2009 a 2011 llwyddom i sicrhau gostyngiad termau arian parod o £1.27 miliwn (8.0 y cant) yn y ffioedd y codwyd gennym am archwiliadau llywodraeth leol, y GIG a'r llywodraeth ganolog, a gwaith grant llywodraeth leol. Cyflawnom hyn drwy wneud arbedion cost a thrwy gyflawni gwelliannau effeithlonrwydd a mabwysiadu dull mwy cymesur o weithio. Rydym yn parhau i ddatblygu ffyrdd i allu sicrhau lefelau uchel o sicrwydd cyhoeddus am lai o adnoddau, gan gynnwys dibynnu'n briodol ar adolygu a hunanasesu trylwyr gan eraill. Mae fy amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2013 wedi'i baratoi ar y sail bod y potensial i gyflawni un cylch arall o ostyngiadau ffioedd termau arian parod o hyd at bump y cant yn 2012-13. Fodd bynnag, mae'r potensial ar gyfer unrhyw ostyngiadau ffioedd yn dibynnu ar amgylchiadau pob corff lleol. Rhaid i'r ffi fod yn ddigonol i ariannu'r gwaith sy'n ofynnol i alluogi archwilwyr i gyflawni'u cyfrifoldebau'n briodol, gan ystyried amgylchiadau lleol fel yr amgylchedd llywodraethu, risg, trefniadau ariannol a threfniadau rheoli perfformiad, maint, cymhlethdod, a hanes y corff o wella. Os oes angen gwaith nad yw wedi ei gynllunio neu waith ychwanegol o ganlyniad i


fethiannau gan gorff archwilio i gwrdd ag anghenion fy staff i wneud eu gwaith yn effeithlon, byddaf yn codi ffioedd ychwanegol sy'n gymesur â'r gwaith ychwanegol a wnaed.

12 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i mi er mwyn cefnogi gwaith asesu gwelliant ac astudiaethau llywodraeth leol. Yn dilyn trafodaethau diweddar gyda swyddogion y Llywodraeth, rwyf wedi cynnwys rhagdybiaeth y bydd lefel y cyllid grant yn gostwng mewn termau arian parod yn 2012-13 o bedwar y cant pellach yn fy amcangyfrif i ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2013.

## Arbedion ac arbedion effeithlonrwydd pellach

13 Mae holl gyrff y sector cyhoeddus, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, yn wynebu'r her o barhau i gyflwyno'r gwasanaethau gorau posibl yn erbyn cefndir o bwysau na welwyd ei debyg o'r blaen ar gyllid cyhoeddus. Er ein bod wedi rhagori ar ein targedau effeithlonrwydd cyffredinol dros y pum mlynedd diwethaf, parhawn i adolygu ein gwariant ac mae gwaith ein Grŵp Adolygu Arbedion ac Effeithlonrwydd mewnol wedi helpu i gyflymu ein cynnydd yn y maes hwn. Roedd y lefel gyffredinol o arbedion untro ac arbedion cyson a gyflawnwyd gennym yn 2010-11 drwy leihau costau a mwy o effeithlonrwydd mewn meysydd fel costau staff a gwariant TGCh dros £1,000,000[8].

**Arddangosyn 5 - Niferoedd y staff cyfwerth ag amser llawn yn Swyddfa Archwilio Cymru dros y cyfnod pum mlynedd 2006-07 i 2010-11**




8 I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at *Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol 2010-11.*

Er bod y raddfa hon o arbedion yn y flwyddyn yn eithriadol ac na fydd modd ei chyflawni eto yn y blynyddoedd i ddod, rwy'n ymroddedig i adolygu a herio ein gwariant a'n harferion gweithio'n barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein gwaith mor effeithiol â phosibl o ran cost, tra'n cynyddu effaith ein gwaith hyd yr eithaf.

**14** Yn gyffredin â llawer o gyrff cyhoeddus, maes gwariant mwyaf Swyddfa Archwilio Cymru yw cyflogau staff a chostau cysylltiedig. Mae Arddangosyn 5 yn dangos y gostyngiad yn niferoedd y staff cyfwerth ag amser llawn, dros y cyfnod pum mlynedd 2006-07 i 2010-11 (21.8 y cant) fel y nodir yn ein hadroddiad a'n cyfrifon blynyddol archwiliedig.

**15** Mae rhan o'r arbedion ariannol a gyflawnwyd gennym drwy ostwng niferoedd staff wedi deillio o gynllun gwirfoddol ar gyfer ymadawiad cynnar ac, o dan y cynllun hwnnw, fe wnaeth 14 o staff adael Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2010-11. Fel yr esboniwyd yn fy Amcangyfrif Atodol 2011-12, rwyf wedi nodi'r posibilrwydd am gynllun gwirfoddol ar gyfer ymadawiad cynnar arall yn y flwyddyn ariannol gyfredol, sydd â'r bwriad o gefnogi cymysgedd staff sy'n fwy cydnaws â gofynion gwaith y dyfodol ac yn lleihau costau staff Swyddfa Archwilio Cymru[9]. Rwy'n amcangyfrif y bydd cyfanswm cost y cynllun gwirfoddol ar gyfer ymadawiad cynnar newydd hwn yn 2011-12 oddeutu 800,000 a bydd yn arwain at arbedion o £200,000 o leiaf yn 2012-13, ac yn cynhyrchu arbedion parhaus wedyn yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, mae fy ngallu i sicrhau'r arbedion hyn yn dibynnu ar fod yna ddigon o ddiddordeb gan y staff yn y cynllun.

**16** Mae fy staff wedi amlygu arbedion effeithlonrwydd eraill y disgwyliwn y bydd yn gymorth pellach i leihau ein sylfaen costau y tu hwnt i 2012-13:

**a** Rydym wrthi'n gwneud newidiadau i drefniadau ein fflyd cerbydau, a fydd yn helpu i wella diogelwch a lles staff, yn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, yn darparu arbedion cost o ryw £72,000 yn 2013-14, ac yn sicrhau arbedion pellach yn y blynyddoedd i ddod.

**b** Yn gynharach eleni cynhaliom adolygiad o'n hystad ac ystyried dewisiadau pellach i leihau ein heffaith ariannol, i fynd i'r afael â hygyrchedd a materion eraill ar ein safle, ac archwilio cyfleoedd i rannu lle sydd dros ben gyda chyrff cyhoeddus eraill. Rydym bellach yn ymgynghori â staff perthnasol ar y dewisiadau hynny. Amcangyfrifir y bydd y newidiadau arfaethedig i'n safle yn cyflawni arbedion o ryw £45,000 y flwyddyn o 2013-14 ymlaen, yn dilyn costau symud i ddechrau, ynghyd â chostau eraill.

9 Fel yr amlinellir yn fy *Amcangyfrif Atodol o Incwm a Threuliau ar gyfer y Flwyddyn a Ddaw i Ben ar 31 Mawrth 2012.*

## Costau ychwanegol i fynd iddynt

17 Er y byddwn yn parhau i adolygu ein gwariant, peidio â chodi tâl ac oedi pob gwariant dianghenraid yn 2012-13, byddwn yn wynebu rhai costau uwch na fydd modd eu hosgoi:

a Yn gyffredin â phob awdurdod cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus Cyffredinol[10], newydd, a ddechreuodd i'r Archwilydd Cyffredinol ym mis Mai 2011. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni, wrth gynllunio a chyflawni ein gwaith, ystyried sut y gall y gwaith hwnnw, ymhlith pethau eraill, helpu dileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig. Roedd asesiad effaith statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyletswyddau newydd yn amcangyfrif y byddai angen dau aelod o staff ar gyrff cyhoeddus i ddelio â gweithredu'r dyletswyddau penodol newydd, a dangosodd bod amcangyfrifon o adnoddau staff pwrpasol ar gyfer y dyletswyddau hyrwyddo blaenorol yn amrywio rhwng oddeutu 300 a 650 o oriau'r flwyddyn (rhai staff 1.5 i 3.25 cyfwerth ag amser llawn). Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gydymffurfio hefyd â Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus Penodol Cymru. Gan yr oedd yr Archwilydd Cyffredinol y tu allan i gwmpas y rhan fwyaf o ddyletswyddau hyrwyddo'r ddeddfwriaeth flaenorol, mae gofynion y dyletswyddau newydd yn ychwanegol yn gyffredinol yn hytrach na'n disodli'r gofynion presennol yn unig. Felly, er mwyn fy helpu i gyflawni'r dyletswyddau statudol newydd hyn, yn yr amcangyfrif hwn rwyf wedi cynnwys costau o £80,000 sy'n gyfwerth â chadw dau aelod o staff cyfwerth ag amser llawn.

b Mae'r trefniadau llywodraethu newydd a gyflwynwyd yn 2011 yn ceisio sicrhau y bydd pwy bynnag sy'n dal swydd yr Archwilydd Cyffredinol, yn destun fframwaith trylwyr a chadarn o wiriadau a chydbwyseddau. Er ein bod wedi amsugno costau gweinyddol cynyddol y trefniadau newydd, cynhwysir yn yr amcangyfrif hwn £40,000 ychwanegol i ariannu tâl a chostau cysylltiedig eraill y chwe aelod newydd o'r pwyllgor anweithredol sydd bellach wedi'u penodi.

## Meysydd ansicrwydd

### Treth ar Werth

18 Fel yr adroddwyd ym mhapurau amcangyfrif blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol bob blwyddyn ers creu Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005, mae trafodaethau'n parhau gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar fy statws Treth ar Werth (TAW). Gall yr atebolrwydd posibl sy'n gysylltiedig ag unrhyw newid yn fy statws TAW fod yn sylweddol a gall wneud yn ofynnol i mi wneud cais yn y dyfodol am adnoddau ategol.

### Newidiadau deddfwriaethol: San Steffan

19 Yn fy amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2012, pwysleisiais y costau ychwanegol i Swyddfa Archwilio Cymru a allai godi yn sgil diddymu'r Comisiwn Archwilio. Ar hyn o bryd rydym yn talu £10,000 yn flynyddol i'r Comisiwn Archwilio am ddefnyddio'u meddalwedd Arolygu Budd-daliadau Tai. Yn dilyn diddymiad arfaethedig y Comisiwn, ni fydd rhaid i ni dalu'r gost honno mwyach, ond mae'n debyg y bydd rhaid i ni yn lle hynny

10 Gellir cael mwy o wybodaeth ar wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: www.equalityhumanrights.com/wales/publications/guidance-on-the-equality-duty-for-the-welsh-public-sector/

ddatblygu a chynnal ein cynnyrch meddalwedd ein hunain sy’n benodol i Gymru. Rydym yn debygol o fod angen prynu rhywfaint o gymorth TGCh ar gyfer y gwaith datblygu, a bydd costau staff ynghlwm wrth y prosiect dylunio a datblygu hwnnw. Rwyf wedi cynnwys £40,000 o gostau datblygu ar gyfer y cynnyrch newydd yn fy amcangyfrif ar gyfer 2012-13, ac rwy’n debygol o gynnwys £10,000 ar gyfer costau cynnal a chadw’n flynyddol yn fy amcangyfrifon ar gyfer 2013-14 ymlaen. Gall yn wir fod costau uniongyrchol pellach i ni yn sgil y diddymiad a all olygu bod rhaid i mi wneud cais pellach am adnoddau atodol. Fodd bynnag, ni fydd modd mesur y costau hyn nes bod Llywodraeth y DU yn cyhoeddi mwy o wybodaeth am fanylion ei gynigion.

## Newidiadau deddfwriaethol: Cymru

**20** Mae hefyd yn debygol y byddaf yn talu costau pellach tuag at ddiwedd 2012-13 sy’n gysylltiedig â chydweithrediad sydd ar ddod a deddfwriaeth archwilio[11] ac unrhyw bwerau neu ddyletswyddau ychwanegol neu ddiwygiedig canlyniadol. Ni fydd yn bosibl mesur y costau hyn hyd nes i ddeddfwriaeth ddrafft fod ar gael i’w hystyried. Er y byddaf yn ceisio ymgorffori unrhyw gostau o’r fath, gall y nifer o newidiadau i ddeddfwriaeth olygu bod rhaid i mi wneud cais pellach am adnoddau atodol.

11 Cyhoeddwyd gan y Prif Weinidog fel rhan o raglen ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-2016 ym mis Gorffennaf July 2011.

# Atodiad 1 - Prif weithgareddau gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr y mae'n eu penodi mewn llywodraeth leol, a ffynonellau ariannu cysylltiedig

| Gweithgaredd | Graddfa | Ffynhonnell ariannu |
|---|---|---|
| Archwilio cyfrifon a baratoir gan y llywodraeth ganolog a chyrff iechyd | Wyth cyfrif a baratoir gan Lywodraeth Cymru; 31 o gyfrifon eraill, gan gynnwys Comisiwn y Cynulliad, saith bwrdd iechyd a thair ymddiriedolaeth y GIG. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Archwilio cyfrifon a baratoir gan gyrff llywodraeth leol | Dau ddeg dau awdurdod unedol, pedwar awdurdod yr heddlu, tri awdurdod tân ac achub, un ymddiriedolaeth prawf, tri awdurdod parciau cenedlaethol, un bwrdd draenio mewnol, saith cronfa bensiwn, 750 o gynghorau cymuned a chyrff bach eraill. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Asesiadau gwelliant llywodraeth leol | Mae'n cynnwys archwiliadau o ba un a yw awdurdodau wedi cyflawni'u dyletswyddau cynllunio gwelliant ac adrodd am berfformiad, asesiadau o'r tebygolrwydd o gydymffurfio â dyletswyddau gwella ac arolygiadau arbennig. Cyflawnwyd mewn 22 o awdurdodau unedol, tri awdurdod tân ac achub a thri awdurdod parciau cenedlaethol. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid grant i gynorthwyo gwaith asesu gwelliant. |
| Gwaith archwilio perfformiad lleol mewn cyrff iechyd | Mae'n cynnwys asesiadau o drefniadau i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Cyflawnwyd mewn saith bwrdd iechyd a thair ymddiriedolaeth y GIG. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Ardystio ceisiadau am grant a ffurflenni | Tri deg wyth o gynlluniau llywodraeth leol (oddeutu 800 o geisiadau gyda chyfanswm gwerth blynyddol o ryw £1.5 biliwn), ochr yn ochr â cheisiadau am gronfeydd strwythurol Ewropeaidd gyda chyfanswm gwerth ceisiadau blynyddol oddeutu £300 miliwn. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian | Yn nodweddiadol ymgymerir ag 13 o archwiliadau ac astudiaethau yn ystod blwyddyn galendr, yn edrych ar werth am arian ym meysydd allweddol gwariant cyhoeddus. Yn aml ymgymerir â'r gwaith hwn o safbwynt 'system gyfan' neu 'drawsbynciol', lle caiff gwariant cyhoeddus ei archwilio ni waeth pwy sy'n cyflwyno'r gwasanaethau. | Ariennir yn bennaf o Gronfa Gyfunol Cymru, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid grant i gynorthwyo astudiaethau llywodraeth leol. |
| Gweithgareddau arwyddocaol eraill | Mae'n cynnwys:<br>• gwirio ceisiadau grant am gymeradwyaethau i dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru;<br>• gweithio gydag eraill i rannu dysgu, gan gynnwys darparu'r Gyfnewidfa Arfer Da;<br>• ymarferiadau gwrth-dwyll ac ymarferiadau cydweddu data eraill, gan gynnwys y Fenter Twyll Genedlaethol;<br>• ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill;<br>• darparu cymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol; a<br>• gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | Ariennir yn bennaf o Gronfa Gyfunol Cymru, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol. Caiff rhai gweithgareddau eu hariannu'n rhannol hefyd gan ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |

# Atodiad 2 - Amcangyfrif o ofynion cyllidebol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2013

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno Cynnig Cyllidebol blynyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol[12] i awdurdodi, ymhlith pethau eraill:

- **a** yr adnoddau y gellir eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol gan yr Archwilydd Cyffredinol;
- **b** yr adnoddau sy'n cronni i'r Archwilydd Cyffredinol y gall eu cadw (yn hytrach na'u talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru); a'r
- **c** swm y gellir ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru i'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r amcangyfrif a archwiliwyd ac a osodwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cael ei ymgorffori yn y Cynnig Cyllidebol.

Mae'r gofynion adnoddau ac arian parod hyn, sy'n gallu bod yn amcangyfrifon yn unig oherwydd amrywioldeb llifau incwm, wedi cael eu crynhoi isod.

## Amcangyfrif o ofynion cyllidebol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2013

| | |
|---|---|
| Adnoddau heblaw am adnoddau cronnus i'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol wrth gyflawni swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr wedi'u penodi gan lywodraeth leol, ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru[13]. | 4,740 |
| Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau am archwilio a gwasanaethau cysylltiedig (heb gynnwys ar gyfer gwaith archwilio, asesu ac arolygu llywodraeth leol); adfer costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol a phroffesiynol a gwasanaethau technegol; adfer costau staff wedi'u secondio; ad-daliadau benthyciadau staff; adfer taliadau prydlesu ceir; a llog a dderbyniwyd ar falansau gweithio i'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar wasanaethau cysylltiedig ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru[14]. | 7,271 |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n dod yn ddyledus i'w talu yn y flwyddyn gan yr Archwilydd Cyffredinol[15]. | 4,740 |

12 O dan Adran 125 o Ddeddf 2006

13 Hwn yw'r gwariant refeniw a chyfalaf net mewn termau adnoddau y gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol ei awdurdodi gan y Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(a) o Ddeddf 2006.

14 Hwn yw'r incwm sy'n cronni i'r Archwilydd Cyffredinol (heblaw am hwnnw sy'n deillio o weithgareddau llywodraeth leol o dan Ran 1 ac Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 y gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol ei awdurdodi gan y Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(b) o Ddeddf 2006 i'w ddefnyddio ar wasanaethau cysylltiedig yn hytrach na'i dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru.

15 Hwn yw'r arian parod sydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru i gwrdd â thaliadau net amcangyfrifedig yr Archwilydd Cyffredinol (taliadau llai derbyniadau) sy'n dod yn ddyledus yn y flwyddyn i'w awdurdodi gan y Cynulliad Cenedlaethol gan y Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(c) o Ddeddf 2006.

## Cysoni'r gofyniad adnoddau net â'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

| | Y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013 £000 |
|---|---|
| Cais net am adnoddau | 4,740 |
| Symudiad mewn dyledwyr ar ddiwedd y flwyddyn a gwaith ar y gweill, credydwyr a darpariaethau, ac incwm gohiriedig | 10 |
| Taliadau cyfalaf (dibrisiant) | (10) |
| **Gofyniad arian parod net** | **4,740** |

# Atodiad 3 - Amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2013

| | | Y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013 £000 |
|---|---|---|
| Treuliau | Costau'n gysylltiedig â staff[16] | 14,638 |
| | Costau adeiladau | 972 |
| | Costau hyfforddi a datblygu[17] | 792 |
| | Costau TG | 795 |
| | Cyflenwadau a gwasanaethau | 4,374 |
| | **Cyfanswm treuliau** | **21,571** |
| Incwm | Ffioedd archwilio ac arolygu | 13,236 |
| | Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella gan Lywodraeth Cymru | 1,347 |
| | Ffioedd ardystio grantiau llywodraeth leol | 1,948 |
| | Incwm arall | 316 |
| | **Cyfanswm ffioedd ac incwm arall** | **16,847** |
| **Cyfanswm gofyniad gwariant refeniw net** | | **4,724** |
| Gofyniad gwariant cyfalaf | | 16 |
| **Cyfanswm gofyniad adnoddau net** | | **4,740** |

16 Mae'n cynnwys arbediad amcangyfrifedig o £200,000 i'w gyflawni trwy gynllun diswyddo gwirfoddol pellach.
17 Mae'n cynnwys amser staff a chostau uniongyrchol.

## Cysoni'r amcangyfrif croniadau incwm â chyfanswm ffioedd ac incwm arall

| | Y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013 £000 |
|---|---|
| Incwm yn cronni i'r Archwilydd Cyffredinol heblaw am hwnnw sy'n deillio o weithgareddau llywodraeth leol | 7,271 |
| Incwm yn cronni i'r Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio, asesu ac arolygu llywodraeth leol | 9,576 |
| **Cyfanswm ffioedd ac incwm arall** | **16,847** |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Date: 19 October 2011
Our ref: HVT/1485/fgb
Page: 1 of 1

Mr Darren Millar AM
Chair, Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA

Dear Darren

**ESTIMATE OF THE INCOME AND EXPENSES OF THE OFFICE OF THE AUDITOR GENERAL FOR THE YEAR ENDED 31 MARCH 2013**

I understand from the discussions my staff have had with the Clerk to the Committee that, despite the additional information provided in my letter of 17 October, the Committee remain concerned about my request for funding for the costs of a new HR/payroll system.

In order to make progress and also address these concerns, I am proposing to withdraw that element of the Estimate, adjusting the figures appropriately. I will at a later stage consider submitting a Supplementary Estimate once my newly established Resources Committee has had chance to scrutinise the proposed costs of the new system.

Yours

Huw

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**AUDITOR GENERAL FOR WALES**

Direct Line: 029 2032 **0510** E-mail: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk



100% recycled paper
100% o bapur a ailgylchwyd

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
**PAC(4)-06-11 (Papur 3)**

## Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Faeth ac Arlwyo mewn Ysbytai

### Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Faeth Cleifion ac Arlwyo mewn Ysbytai. Mae wedi ymrwymo i roi sylw i'r materion a nodir gan yr adroddiad i wella gwasanaethau a phrofiad cleifion.

2. Mae'r papur hwn yn darparu i'r Pwyllgor drosolwg ar y gwaith a wnaed i wella maeth cleifion ac arlwyo mewn ysbytai. Mae hefyd yn amlinellu'r datblygiadau presennol ac i'r dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod er bod y trefniadau arlwyo a'r gofal maethol a ddarperir i gleifion yn ysbytai Cymru wedi gwella, bod angen i'r arferion da gael eu gweithredu'n gyson fel bod anghenion maethol pob claf yn cael eu bodloni.

3. Caiff y cyfrifoldeb dros gyflawni argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ei rannu rhwng Llywodraeth Cymru, y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

### Cefndir

4. Yn Nhachwedd 2007, bu i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd sefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Grymuso Prif Nyrsys Ward. Gwnaeth yr adroddiad dilynol, Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu (LlyC 2008), 35 o argymhellion. Ymysg y rhain yr oedd datblygu Offeryn Archwilio Hanfodion Gofal Cymru Gyfan, datblygu Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan a datblygu Siart Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan.

5. Yn 2009 cyflwynwyd y Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan ar draws pob ward ym mhob ysbyty yng Nghymru. Mae'r Llwybr Gofal yn cynorthwyo nyrsys yn y broses gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â sgrinio pob claf o safbwynt maeth pan gaiff ei dderbyn a'r gofal maethol sy'n ofynnol gydol ei amser yn yr ysbyty. Fe'i cefnogir gan y Siart Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan a'r Siartiau Mewnbwn ac Allbwn Wythnosol a Dyddiol diwygiedig, gyda phosteri cysylltiedig sy'n rhoi enghreifftiau darluniadol o feintiau prydau amrywiol. Mae'r siartiau a'r posteri hyn yn galluogi cofnodi safonedig, cywir lefelau bwyd a diod cleifion ar draws GIG Cymru, gan gynorthwyo gydag adnabod, monitro a thrin cleifion sydd mewn perygl o ran maeth.

6. Ategir y datblygiadau hyn gan Ymgyrch Ymwybyddiaeth o Faeth i staff a gyflenwyd gan Goleg Brenhinol y Nyrsys Cymru a oedd â'r nod o gynyddu pwysigrwydd bwyd a diod i'r un lefel â'r pwysigrwydd a roddir i feddyginiaeth.

7. Yn 2010 cyhoeddwyd Safonau Gofal Iechyd diwygiedig i Gymru, ‘Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well - Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru’. Roedd y safon newydd ar gyfer bwyd mewn ysbytai, Safon 14, a’r arweiniad ategol yn atgyfnerthu’r gofynion ar gyfer bodloni anghenion maethol cleifion a phwysigrwydd gweithredu’r Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan.

8. Er 2002 mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Cyfleusterau (PC-GIG-GC), Ystadau Iechyd Cymru gynt, wedi cynnal cronfa ddata o wybodaeth am berfformiad yn seiliedig ar ddatganiadau blynyddol Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol. Mae hon yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau arlwyo ysbytai yn ogystal â materion eraill megis glanhau. Cyfeirir at y gronfa ddata hon fel y System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS). O safbwynt arlwyo, gall yr EFPMS gynorthwyo cyrff iechyd i wella perfformiad mewn meysydd megis gwastraff bwyd a chostau arlwyo. Mae hefyd yn darparu i Lywodraeth Cymru well dealltwriaeth o berfformiad y GIG gan gynnwys darpariaeth arlwyo ysbytai.

**Canfyddiadau’r Archwilydd Cyffredinol**

9. Daw adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i’r casgliad bod trefniadau arlwyo a gofal maethol wedi gwella ar y cyfan ers astudiaeth y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn 2002, a bodd boddhad yn uchel o hyd ymysg cleifion. Fodd bynnag, daw hefyd i’r casgliad bod angen gwneud rhagor o hyd i sicrhau bod yr arferion da cydnabyddedig yn cael eu gweithredu’n ehangach, yn enwedig o safbwynt sgrinio maethol a chynllunio gofal, ac i sicrhau bod gwastraff bwyd yn cael ei leihau. Mae’r adroddiad yn codi pedwar mater eang o safbwynt y ddarpariaeth arlwyo mewn ysbytai a maeth cleifion:

i. Caiff cleifion eu sgrinio fel arfer am broblemau maethol ond gellir gwella ansawdd y sgrinio maethol (Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru tudalennau 21-27).

ii. Mae’r rhan fwyaf o ysbytai’n darparu dewis priodol o brydau ac mae cleifion, ar y cyfan, yn fodlon gyda’r bwyd a gânt, ond mae angen i’r asesiad maethol o fwydlenni a phrofiadau amser bwyd cleifion wella (Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru tudalennau 28-35).

iii. Mae ffocws rheoli cliriach ar gostau gwasanaethau arlwyo yn angenrheidiol i ddeall yn well yr amrywiadau sy’n bodoli ar draws sefydliadau’r GIG ac i leihau gwastraff bwyd, sy’n annerbyniol o uchel o hyd ar lawer o wardiau (Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru tudalennau 36-46).

iv. Mae rhagor o waith yn angenrheidiol i ddatblygu fframweithiau cynllunio lleol a chenedlaethol cliriach ar gyfer cynllunio a chyflenwi gwasanaethau arlwyo, ac er mwyn sicrhau bod barn cleifion yn dylanwadu ar y rhain (Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru tudalennau 47-52).

**Sicrhau y bodlonir anghenion maethol cleifion**
**Cynnydd ar argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru 1a, 1b, 1c, 1d, 1e, 2a, 2b, 3a, 3b, 3c**

10. Er mwyn sicrhau bod holl staff y wardiau'n deall sut i weithredu'n llwyr y Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan a chwblhau'r Siart Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan, cyflwynwyd pecyn e-ddysgu ym Medi 2011. Bydd gweithredu'n llwyr y Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan yn rhoi sylw i lawer o'r materion a godwyd yn adroddiad yr archwiliad. Mae'r Llwybr Gofal yn mynnu bod pob claf yn cael ei sgrinio o safbwynt maeth adeg eu derbyn i'r ysbyty. Bydd y sgrinio'n canfod yr holl gleifion sydd â phroblemau maeth, neu sydd mewn perygl o'u datblygu, ac yn cychwyn proses gynllunio gofal, werthuso a monitro briodol. Mae gofyn i holl staff y wardiau gwblhau pecyn hyfforddiant e-ddysgu yn y 12 mis nesaf a bydd yn rhaid i staff newydd ei gwblhau cyn pen 12 mis o'u penodi.

11. Yn 2011 sefydlwyd Grŵp Ôl Weithredu - Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu i gynnal prosiectau penodol sy'n cefnogi gwelliannau yn y gofal i gleifion. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw i'r materion a ddynodwyd yn yr Archwiliadau Hanfodion Gofal ac mewn adroddiadau cenedlaethol megis adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 'Gofal gydag Urddas?' (2011). Sefydlwyd gweithgor i adolygu a safoni dogfennau nyrsio ledled Cymru, gan felly sicrhau dull cyson o gynllunio gofal a sgrinio maethol.

12. Caiff gweithredu'r Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan a'r cydymffurfio â'r gofynion hyfforddiant eu monitro drwy gyfrwng Offeryn Archwilio Hanfodion Gofal. Er 2009 mae gofyn i sefydliadau'r GIG gynnal archwiliad llawn o wardiau/adrannau eu holl ysbytai yn flynyddol a chyflwyno'r canlyniadau i Brif Swyddog Nyrsio/Cyfarwyddwr Nyrsio Cymru. Gall y system electronig sy'n ategu'r offeryn archwilio ddadansoddi a chynhyrchu adroddiadau o'r data a gofnodir ar lefel wardiau. Mae hefyd yn galluogi pob ward i ddatblygu cynlluniau gofal er mwyn rhoi sylw i faterion sy'n peri pryder a welwyd yn ogystal ag adeiladu ar feysydd arferion da. Dangosodd archwiliad Hanfodion Gofal Cymru Gyfan 2010 fod pob Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth, er 2009, wedi gwella'i sgôr cyffredinol ar gyfer y safon Bwyta ac Yfed, o safbwynt gweithredol a defnyddwyr. Er enghraifft, mae Caerdydd a'r Fro wedi gwella'u sgôr gweithredol o 75% yn 2009 i 90.8% yn 2010 a'u sgôr defnyddwyr o 79.1% i 91.7%, yn yr un drefn.

13. Mae pump o'r wyth corff GIG yn adrodd yn benodol bod eu hadroddiadau lleol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu defnyddio fel sbardun allweddol ar gyfer gwella maeth ac arlwyo. Mae holl gyrff y GIG yn datgan eu bod yn dilyn y Llwybr Gofal a bod cynllunio gofal cleifion yn seiliedig ar ganlyniad y sgrinio maethol. Maent yn rhoi sylw i unrhyw broblemau gyda chydymffurfio gwael gyda'r Llwybr Gofal. Mae pob Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth wedi penodi cydgysylltydd i arwain, monitro ac adrodd yn ôl ar weithredu'r hyfforddiant e-ddysgu ar y Llwybr Gofal, gan sicrhau bod holl staff wardiau'n cael yr hyfforddiant cyn pen 12 mis.

14. Gan adeiladu ar y Llwybr Gofal Cymru Gyfan, cyflwynwyd Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Bwyd a Diod i Gleifion Mewnol Ysbytai yn Hydref 2011 ac maent yn cael eu cyflwyno i bob ysbyty. Maent yn gosod safonau maeth a bwyd ar gyfer prydau, byrbrydau a diodydd. Sefydlwyd grŵp o ddietegwyr ac arlwywyr i ddatblygu cronfa ddata

genedlaethol o fwydlenni a ryseitiau, y dadansoddwyd eu maeth, ac sy’n cydymffurfio â’r Safonau.

**Gwella profiad Cleifion o amseroedd bwyd**
**Cynnydd ar argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru 3a, 3b, 3c**

15. Mae holl gyrff y GIG wedi, neu wrthi'n, adolygu bwydlenni a'r trefniadau ar gyfer archebu a gweini bwyd er mwyn sicrhau eu bod yn darparu dewisiadau priodol ar gyfer anghenion diwylliannol a dietegol cleifion ac yn bodloni'r Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Bwyd a Diod i Gleifion Mewnol Ysbytai. Mae holl gyrff y GIG hefyd yn adrodd am arferion adolygu ar lefel y wardiau, er mwyn sicrhau bod staff yn paratoi amgylchedd y ward fel ei fod yn annog cleifion i fwyta a bod cleifion yn cael eu helpu i baratoi ar gyfer eu prydau, gan gynnwys bod yn gallu golchi eu dwylo cyn i'r bwyd gael ei weini. Mae'r rhan fwyaf wedi defnyddio adborth cleifion i hysbysu newidiadau mewn ymarfer ac wedi dynodi aelod penodol o dîm y ward i fod yn gyfrifol am hybu a gweithredu'r arferion newydd.

16. Mae holl gyrff y GIG yn datgan bod y rhan fwyaf o wardiau'n gweithredu polisi amser bwyd neilltuedig. Amlygasant hunanfodlonrwydd fel un broblem a chydnabyddir bod gwaith i'w wneud o hyd gyda disgyblaethau ehangach, heblaw am nyrsio, er mwyn gwneud amseroedd bwyd neilltuedig yn norm. Er enghraifft, gweithio gyda meddygon i'w hannog i beidio â gwneud gweithgaredd clinigol nad yw'n weithgaredd brys yn ystod amseroedd bwyd.

**Rheoli cost gwasanaethau arlwyo**
**Cynnydd ar argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru 4a, 4b, 5a, 5b, 5c, 6a, 6b, 6c, 6d, 7a, 7b**

17. Mae gwaith yn mynd rhagddo, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, i ddatblygu model ar gyfer costio gwasanaethau arlwyo i gleifion ac eraill er mwyn galluogi cymharu costau arlwyo ysbytai'n ystyrlon ledled Cymru. Bydd hwn wedi'i gwblhau erbyn Rhagfyr 2011 a bydd yn adeiladu ar y model arferion da a ddatblygwyd eisoes gan y Bwrdd, sydd ar hyn o bryd yn canfod costau ar gyfer gwasanaethau arlwyo i gleifion ac i eraill. Ar yr un pryd, mae PC-GIG-GC yn cysylltu gyda Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre i gael gwybodaeth fanwl am fodelau costio y maent yn eu defnyddio ar hyn o bryd i hysbysu data EFPMS.

18. Mae dros hanner cyrff y GIG yn gweithredu systemau gwybodaeth arlwyo cyfrifiadurol ac mae'r lleill yn adolygu eu harferion ar hyn o bryd. Mae holl gyrff y GIG yn adrodd bod cyfran fawr o'r cynhyrchion yn cael eu prynu drwy gyfrwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Caffael, contractau Cyflenwadau Iechyd Cymru gynt. Mae'r rhan fwyaf o gyrff y GIG wedi sefydlu rhai ryseitiau safonedig wedi'u costio ond nid yw'r cyfan ohonynt wedi sefydlu lwfansau bwyd a diod dyddiol ar gyfer cleifion. Mae holl gyrff y GIG yn cydnabod yr angen i roi sylw i hyn a bwriadant wneud hynny wrth iddynt addasu bwydlenni i gydymffurfio â'r Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Bwyd a Diod i Gleifion Mewnol Ysbytai. Cefnogir hyn gan gronfa ddata o ryseitiau a bwydlenni wedi'u datblygu'n ganolog. Mae holl gyrff y GIG wedi dechrau rhoi sylw i'r argymhellion ynghylch gwasanaethau arlwyo i rai nad ydynt yn gleifion a bydd y model costio yn cefnogi'r gwaith hwn.

19. Mae adroddiad yr Archwiliad yn argymell gosod targedau ar gyfer gwastraff bwyd. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Defra, Llywodraeth yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r corff a noddir gan y Llywodraeth WRAP (Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau) i ddatblygu cytundeb gwirfoddol ar gyfer y Sector Lletygarwch, gan gynnwys arlwyo mewn ysbytai, sy'n cynnwys targed lleihau gwastraffu. Mae'r rhan fwyaf o gyrff y GIG yn adrodd eu bod yn canfod y rhesymau am wastraffu, a'u bod yn defnyddio'r wybodaeth hon i leihau gwastraffu. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'n nodi gwelliant mewn datblygu cydgyfrifoldeb dros reoli gwastraff gyda gweithredu'n digwydd yn lleol.

**Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol**
**Cynnydd ar argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru 8a, 8b, 8c, 9a, 9b, 9c, 10a, 10b, 11a, 11b, 11c**

20. Datblygwyd gwefan 'Fframwaith Maeth ac Arlwyo mewn Ysbytai' er mwyn dwyn ynghyd bob arweiniad polisi sy'n rhoi sylw i faeth cleifion ac arlwyo mewn ysbytai. Mae'n rhan o 'Iechyd yng Nghymru', sef porth sefydliadol GIG Cymru, Gwasanaeth Gwybodaeth Iechyd Cymru (HOWIS) yn ffurfiol. Bydd y wefan 'Fframwaith' ar gael yn fuan ar bob ward ym mhob ysbyty drwy gyfrwng y Parth Gwybodaeth Nyrsio Cymru Gyfan a gyflwynwyd yn ddiweddar.

21. Mae holl gyrff y GIG yn adrodd bod ganddynt, neu eu bod yn datblygu, strwythurau lleol a thimau aml ddisgyblaeth i sicrhau bod gweithdrefnau a chynlluniau diweddar wedi'u sefydlu er mwyn gweithredu gofynion polisïau cenedlaethol. Dewiswyd arweinwyr gweithredol ar lefel Cyfarwyddwyr yn holl gyrff y GIG a chaiff pob Bwrdd ei hysbysu o'r materion arlwyo a maeth drwy gyfrwng adroddiad blynyddol, fan leiaf.

22. Mae holl gyrff y GIG yn canfod cleifion sydd mewn perygl o safbwynt maeth drwy gyfrwng sgrinio maethol. Mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau y rhennir ac y defnyddir y wybodaeth hon er mwyn canfod yr effaith debygol ar wasanaethau arlwyo a maeth. Cesglir manylion cydymffurfio â defnyddio offeryn sgrinio maethol fel rhan o'r Archwiliad Hanfodion Gofal a gynhelir ar bob ward ledled Cymru.

23. Adroddodd chwech o'r wyth corff GIG eu bod yn cynnal arolygon o foddhad cleifion gyda gwasanaethau arlwyo ac maent oll yn cysylltu â'r cleifion drwy gyfrwng amrywiol beirianweithiau er mwyn canfod y problemau, rhannu'r canfyddiadau gydag arlwywyr a staff y wardiau ac, yn y pendraw, er mwyn gwella'u gwasanaethau maeth ac arlwyo.

24. Eleni, fel yn y blynyddoedd blaenorol, gweithiodd PC-GIG-GC gyda chyrff y GIG i sicrhau eu bod yn deall y diffiniadau data ac er mwyn gwella cadernid y data a gyflwynir. Daeth y data ar gyfer EFPMS 2010-2011 i law a bwriedir cyhoeddi'r adroddiadau yn Rhagfyr 2011. Bydd y data EFPMS a ddefnyddiwyd i baratoi'r adroddiadau hyn ar gael oddi ar wefan PC-GIG-GC. Mae holl gyrff y GIG yn adrodd gan ddefnyddio data'r EFPMS i ryw raddau.

25. Eleni, ar ôl cyhoeddi, bwriedir cynnal sesiwn adborth gyda holl gyrff y GIG er mwyn canfod sut y gallai'r EFPMS o bosibl fod yn offeryn meincnodi mwy effeithiol i godi safonau a gwella ansawdd ac effeithlonrwydd gwasanaethau i gleifion. Mae PC-GIG-GC hefyd yn cydweithredu gyda'u cydweithwyr nyrsio yn Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cydlyniant rhwng y data a gesglir drwy gyfrwng y system EFPMS a'r hyn a gesglir fel rhan o'r archwiliadau Hanfodion Gofal. Ystyrir bod hyn yn hanfodol ar gyfer darparu gwybodaeth ar weithredu amcanion polisïau cenedlaethol yn lleol.

**Casgliadau**

26. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella maeth cleifion ac arlwyo mewn ysbytai. Mae'r papur hwn wedi amlygu amrywiol weithredu a wnaed eisoes cyn cyhoeddi adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ynghyd â datblygiadau newydd pwysig megis y Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Bwyd a Diod i Gleifion Mewnol Ysbytai sydd wedi gosod safonau maeth a bwyd ar gyfer prydau, byrbrydau a diodydd.

27. Drwy ddefnyddio Offeryn Archwilio Hanfodion Gofal, gall wardiau ledled Cymru ganfod pa agwedd ar yr ymarfer a phrofiad cleifion sydd angen eu gwella. Mae hwn yn cynnwys profiad cleifion o fwyta ac yfed yn yr ysbyty. Mae archwiliad Hanfodion Gofal Cymru Gyfan 2011 newydd ddechrau a disgwylir y bydd cyrff y GIG yn parhau i wneud gwelliannau pellach yn y maes hwn.

28. Bydd canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn hysbysu gweithredu pellach.

**David Sissling**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant**
**Hydref 2011**

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd** | |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 18 Hydref 2011** | |
| Amser: | **09: - 11:00** | |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio’r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau’r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar)**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Leanne Wood** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Auditor General for Wales, Wales Audit Office**<br>**Bernard Galton, Director General, PPCS**<br>**Crispin O'Connell, Deputy Director, Places and Services Division**<br>**Dame Gillian Morgan, Permanent Secretary, Welsh Government**<br>**Paul Dimblebee, Group Director – Performance Audit, WAO** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Webber (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn:

Eitemau 3 a 4.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am amcangyfrif o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2012

3.1 Bu’r Pwyllgor yn trafod yr amcangyfrif o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2012.

## 4. Sesiwn friffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011'

4.1 Cafodd y Pwyllgor ragor o wybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011 – Y prif heriau sy’n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru’.

## 5. Darparu gwasanaethau a phrosiectau TGCh o dan gontract Merlin: Tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol

5.1 Croesawodd y Pwyllgor y tystion a ganlyn i’r cyfarfod: y Fonesig Gillian Morgan, Ysgrifennydd Parhaol; Bernard Galton, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol; a Crispin O’Connell, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Lleoedd a Gwasanaethau.

5.2 Yn ogystal, croesawodd y Pwyllgor y tystion a ganlyn i’r cyfarfod: Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, a Paul Dimblebee, Cyfarwyddwr Grŵp – Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru.

5.3 Bu’r Pwyllgor yn holi’r tystion.

**Camau i’w cymryd:**

Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu:

- Manylion ynghylch y 298 o gyflenwyr gwahanol a ddefnyddiwyd y tu allan i gontract Merlin, gan gynnwys manylion ynghylch nifer y cyflenwyr hynny sydd wedi’u lleoli yng Nghymru.
- Rhagor o wybodaeth am arbedion a wnaed drwy osgoi cosbau ariannol, gan gynnwys gwybodaeth am y modd y dangoswyd gwerth am arian ac am unrhyw faterion sy’n ymwneud ag enw da.

## 6. Papurau i'w nodi

6.1 Nododd y Pwyllgor y papurau a chymeradwyodd gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.